# 2010 Rhif 37

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

# CYFARWYDDIADAU GWAED A THRAWSBLANIADAU'R GIG (NHS BLOOD AND TRANSPLANT) (CYMRU) (DIWYGIO) (RHIF 2) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *Rhagfyr 2010* |
| *Yn dod i rym* | *21 Rhagfyr 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 23(1), 24(1) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) drwy hyn yn gwneud y Cyfarwyddiadau a ganlyn—

**Cychwyn , cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 21 Rhagfyr 2010.

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr "y Prif Gyfarwyddiadau" ("*the Principal Directions*") yw Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) 2005.

(4) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn diwygio'r Prif Gyfarwyddiadau.

**Diwygio cyfarwyddyd 1 o'r Prif Gyfarwyddiadau**

**2.** Yng nghyfarwyddyd 1 (enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso) o'r Prif Gyfarwyddiadau, yn y diffiniad o "y Ddeddf" yn is-baragraff (2), yn lle "Deddf

(**1**) 2006 (p.42).

Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977” rhodder “Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006”.

**Diwygio cyfarwyddyd 5 o’r Prif Gyfarwyddiadau**

**3.** Mae cyfarwyddyd 5 o’r Prif Gyfarwyddiadau (swyddogaethau mewn cysylltiad â dyrannu organau dynol i’w trawsblannu) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn —

(a) yn is-baragraff (1), ar ôl “is-baragraffau” mewnosoder “(1A),”;

(b) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder yr is-baragraff a ganlyn—

“(1A) Wrth arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â dyrannu organau i’w trawsblannu o dan gyfarwyddyd 4(1) ac is-baragraff (1), bydd GTGIG yn rhoi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddyrannu organau i’w trawsblannu a gyhoeddir cyn 20 Rhagfyr 2010 ac, er mwyn rhoi effaith i’r canllawiau hynny, caiff ddyrannu organau mewn ffordd sy’n wahanol i’r hyn a geir o dan y Cynlluniau.”; ac

(c) ar ôl is-baragraff (3)(ch) ychwaneger—

“(d) personau sy’n preswylio fel arfer yn Ynysoedd y Sianel.” .

**Diwygio cyfarwyddyd 6 o Gyfarwyddiadau 2005**

**4.** Yng nghyfarwyddyd 6 (swyddogaethau cyffredinol GTGIG) o’r Prif Gyfarwyddiadau —

(a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle “adran 23 o’r Ddeddf (cyrff gwirfoddol a chyrff eraill)” rhodder “adran 10 o’r Ddeddf (trefniadau Gweinidogion Cymru â chyrff eraill)”; a

(b) yn is-baragraff (1)(b), yn lle adran 2(b) o’r Ddeddf (pwerau cyffredinol y Cynulliad ynglŷn â gwasanaethau), rhodder “adran 2(1)(b) o’r Ddeddf (Pŵer cyffredinol Gweinidogion Cymru)”.

**Diwygio cyfarwyddyd 8 o’r Prif Gyfarwyddiadau**

**5.** Yng nghyfarwyddyd 8 (trafodion tir) o’r Prif Gyfarwyddiadau—

(a) yn is-baragraff (1), yn lle “adran 87(1) a (2)” rhodder “adran 159(1) i (3) (caffael, defnyddio a chynnal eiddo)”; a

(b) yn is-baragraff (6), yn lle “adran 87” rhodder “adran 159”.

*Edwina Hart AC*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad Rhagfyr 2010